



DATGANIAD I'R WASG - PRESS RELEASE

UNIGRWYDD YN NHRE CAERFYRDDIN

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn creu grŵp i edrych ar sut y gellir helpu pobl sy'n dioddef o unigrwydd yn ein cymunedau lleol.

O dan arweiniad Dirprwy Faer Caerfyrddin, y Cyng. Miriam Moules, bydd y grŵp yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw un sydd a diddordeb mewn helpu gyda'r prosiect neu yn wir rhywun sydd angen cefnogaeth yn barod i'w helpu i ddelio gydag unigrwydd.

Dywedodd Miriam, sydd yn ei hail dymor fel Dirprwy Faer Caerfyrddin: 'Mae'r pandemig wedi dod a phroblemau sy'n gysylltiedig ag unigrwydd i'r amlwg, ond wrth gwrs mae unigrwydd wedi effeithio ar nifer fawr o bobl ers amser hir iawn. Ein nod yw i ddod â phobl at ei gilydd sy'n dymuno codi eu pryderon ac i rannu eu profiadau am yr hyn all gael ei wneud ar lefel leol iawn i helpu pobl sy'n teimlo'n unig. Mae yna llawer iawn o grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn gwneud gwaith rhyfeddol i helpu pobl sydd yn teimlo'n unig, ac ein nod yma yw estyn allan at unrhyw un sydd efallai angen help a sicrhau bod unrhyw fylchau yn y gefnogaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn cael eu cau a bod pobl yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael neu efallai rhai pethau sydd angen i ni feddwl am eu gneud yn lleol yma yng Nghaerfyrddin i ddarparu fwy o help'.

'Byddwn hefyd yn adolygu ein polisiâu i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar helpu pobl gyda'r mathau hyn o heriau. Mae hyn yn diriogaeth newydd iawn i waith y Cyngor Tref ond mae'r gefnogaeth a gawsom gyda'r cynllun gwirfoddoli yn ystod y pandemig, pan ddaeth llawer o wirfoddolwyr i helpu pobl fregus ac unig yn ein cymuned, yn dangos bod angen fwy o gefnogaeth ar bobl a mynediad at well gwybodaeth'.

Bydd cyfarfod cyntaf y grŵp yn cael ei gynnal trwy fideo o bell am 4 o'r gloch dydd Llun, 6^{ed} o Fedi a gofynnir i unrhyw sydd â diddordeb yn cefnogi neu gyfrannu at y gwaith hwn i gysylltu â'n Swyddog Lles Cymunedol, Jenny Fox, ar jafox@carmarhtowncouncil.gov.uk